**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y Pwyllgor Digwyddiadau, 18 Ebrill 2023**

**Cynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Rhuddlan**

**Yn bresennol:**
Y Cadeirydd Mike Kermode (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Val Simmons
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Roedd sawl aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn cynrychioli rhai o grwpiau gwirfoddol cymunedol Rhuddlan.
Shirley Capper Clwb Bowlio Rhuddlan, Seren Evans SPAR, Donna Musgrove Beavers Rhuddlan. Paul Edwards a Ffion White, Bespoke Events.

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol.

**1. Ymddiheuriadau**
Roedd nifer o grwpiau cymunedol wedi anfon eu hymddiheuriadau ac mae'r rhain wedi'u cofnodi isod er nad oes angen gwneud hynny'n ffurfiol gan nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor digwyddiadau.
Eldon Jones Cymdeithas Rhandiroedd Rhuddlan, Sue Butterworth a Gill Price Grŵp Cyfeillgarwch Rhuddlan, Jayne Coxall, Paul Oxley ac Alan Jones Eglwys y Santes Fair.

**2. Datgan Buddiant**
Y Cynghorydd Mike Elgin a'r Cynghorydd Arwel Roberts, Clwb Bowlio Rhuddlan.

**3. Cofnodion**
Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth 2023.

**4. Materion yn Codi**
Mae'r polion baneri wedi cael eu tynnu o furfylchau'r castell ac mae cyngor y dref wedi ysgrifennu i CADW i ofyn a fydd baneri newydd yn barod ar gyfer y coroni.

Mae baneri wedi cael eu prynu a'u derbyn ar gyfer y coroni. Bydd contractwr yn eu codi/eu tynnu ar ran y Cyngor. Byddant yn cael eu codi o'r bont droed ym mhen draw'r dref at gylchfan y clwb golff.
Mae'r holl nawdd y gwneud cais amdano ac y cytunwyd arno wedi'i dalu.
Mae'r paratoadau ar gyfer gŵyl fwyd Gwledd yn mynd rhagddynt yn dda ac mae diweddariad ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn heno.
Roedd agoriad yr Hwb yn ddigwyddiad llwyddiannus ac roedd pawb wedi mwynhau.
Hysbys – cynhelir Dawns Grŵp Dementia Rhuddlan ar 29 Ebrill

**5. Penwythnos y Coroni**
Gofynnodd y pwyllgor i'r gwahanol grwpiau roi diweddariad ar eu digwyddiadau unigol a chawsant eu hatgoffa bod modd iddynt wneud cais am ragor o gymorth os oes angen.
*Clwb Bowlio Rhuddlan* – Roedd y Cynghorwyr Mike Elgin ac Arwel Roberts eisoes wedi datgan buddiant fel aelodau o'r clwb. Mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl. Byddai'r clwb yn hoffi cael mwy o arian i dalu am Fand Gorymdeithio o'r Rhyl a fydd yn cymryd rhan a rhoddwyd amseroedd y digwyddiadau. Yn absenoldeb swm penodol, cynigiodd y Cynghorydd Val Simmons £100, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin.
**Penderfynwyd.**
Bydd y gwobrau ariannol a gytunwyd (gwobr 1$^{af}$ £25, 2il wobr £15) ar gael ar y diwrnod gan y Clerc ar gyfer y cystadlaethau gwisg ffansi am 2.30pm, y beirniad fydd y Cynghorwyr Ann Davies a Val Simmons.
Cytunwyd i gynnal cystadlaeuaeth lliwio ar gyfer y plant am 1pm ar y diwrnod ym mhabell y clwb bowlio a bydd angen sicrhau bod y gwobrau ariannol ar gael ar y diwrnod hefyd. Gofynnwyd i'r Clerc ddarparu'r papur a'r creonau. **Penderfynwyd**.
Gall y clwb fenthyg bwrdd a chadeiriau o'r HWB os ydynt yn dymuno.
Cafwyd trafodaeth am godi baner goroni ar y clwb bowlio neu faner yn cynrychioli'r 4 gwlad datganoledig a welodd y Cynghorydd Arwel Roberts yn ddiweddar ar ysgol leol. Ni waeth pa faner a ddewisir, bydd angen dweud wrth y Clerc beth yw ei maint. **Penderfynwyd.**
*System PA* – Cytunwyd i gyfrannu £20 hefyd i dalu am system PA Gwyn Price.
**Penderfynwyd.**
*Mudiadau eraill* – Dywedodd y Clerc fod Eglwys y Santes Fair, Grŵp Cyfeillgarwch Rhuddlan, a Chymdeithas Hanes Rhuddlan yn hapus iawn â'r cynnydd wrth drefnu eu digwyddiadau penodol. Fodd bynnag nid yw'r Band Gorymdeithio y cytunwyd ei ariannu heno wedi'i gynnwys ar y daflen farchnata sydd eisoes wedi'i dosbarthu felly bydd yn cael ei ychwanegu at wefan y Cyngor a'r dudalen Facebook. Cytunwyd y byddai'r clwb bowlio yn ychwanegu eu hymdrechion marchnata hefyd.
*Marchnata* – Nid oedd rhai o'r bobl fydd yn bresennol yn y digwyddiadau wedi derbyn y daflen ddigwyddiadau ac doedd dim rhagor ar ôl. Gofynnwyd i'r Clerc anfon poster/taflen maint A5 i'r SPAR. **Penderfynwyd**.
*Beavers Rhuddlan* – cafodd y grŵp ei gynyrchioli drwy Zoom gan Donna Musgrove am y tro cyntaf. Fel Cadeirydd, croesawodd y Cynghorydd Mike Kermode Donna i'r cyfarfod a chyflwynodd aelodau'r pwyllgor digwyddiadau a'r cyfranogwyr. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod cyngor y dref yn barod i helpu i ariannu unrhyw ddigwyddiad yr hoffai'r Beavers ei drefnu.

Roedd Donna yn gobeithio cymryd rhan yn y dathliadau ar Gae'r Llyngesydd ddydd Llun. Bydd yn rhoi neges ar dudalen Facebook y Beavers yn gofyn am wirfoddolwyr ond bydd hi a'i gŵr yn barod i helpu mewn unrhyw ffordd. Gofynnwyd iddi a fyddai'r cybiau a'r sgowtiaid yn hoffi cymryd rhan a dywedodd Donna y byddai'n holi eu harweinwyr.

**6. Gŵyl Gwledd-Fest**

Cyflwynodd y Cynghorydd Kermode y trefnwyr proffesiynol sydd wedi cael eu cyflogi gan gyngor y dref a dywedodd wrth bawb y gall stondinwyr barcio eu cerbydau ym maes parcio'r ysgol ar y diwrnod, ynghyd ag aelodau côr yr ysgol am 11am. Darparwyd manylion cyswllt y côr.

Bespoke Events – Trafodwyd y rhestr ddifyr a hir o ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu, gan gynnwys:-

mae 65 o stondinwyr eisoes wedi talu am eu lle.

trefnwyd y bydd Rebag Band, Dyffryn Diva Girls, a Muddy Boots Band yn cymryd rhan.

Bydd yr agoriad swyddogol am 10.45am

Bydd y consuriwr Professor Llusern yn cymryd rhan

Cynhelir sesiwn blasu Yoga Tutor am ddim

Rhestrwyd nifer o stondiau bwyd a diod a chafwyd cadarnhad bod trwyddedau alcohol yn eu lle. Roedd angen mwy o stondinau bwyd poeth os yn bosibl. Byddai'r Clwb Bowlio a Bespoke Events yn trafod y posibilrwydd o ddarparu byrgyrs yn barbeciw'r clwb. Bydd Cymdeithas y Ganolfan Gymunedol yn darparu te a choffi yn y ganolfan dros y cownter gan y bydd angen yr ardaloedd eraill ar gyfer stondinau. **Penderfynwyd**.

Bydd y Fenter Iaith yn bresennol

Mae baneri yn cael eu hailargraffu i gynnwys dyddiadau eleni.

Bydd Bespoke Events yn darparu 3 *walkie talkie* ac mae'r ddarpariaeth cymorth cyntaf wedi cael ei chadarnhau.

Bydd y Cynghorydd Arwel Roberts yn gwneud trefniadau i gael bêls gwellt o Fferm Pengwern. Bydd hefyd yn ceisio trefnu bod rhaglen deledu Heno yn rhoi sylw i'r ŵyl os yn bosibl.

Trafodwyd y strategaeth farchnata - bydd yn cynnwys cylchgrawn y plwyf, gwefan a thudalen Facebook y cyngor, a bydd y Clerc yn cysylltu hefyd â'r gwahanol wersylloedd gwyliau/carafannau. Bydd Bespoke Events a'r Clerk yn gwneud trefniadau i osod y baneri a defnyddio logos y cwmni/y cyngor wrth eu hailargraffu. **Penderfynwyd.**

Bydd Ffion yn anfon rhai darluniadau o'r digwyddiad blaenorol er mwyn eu rhoi ar wefan cyngor y dref.

Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i agor y Ganolfan Gymunedol o 7.30am ymlaen os yw'n bosibl. Bydd y Clerc yn trefnu hyn. **Penderfynwyd**.

Mae'r holl gynghorwyr yn cael eu hannog i wirfoddoli ar y diwrnod ac i gyrraedd tua 8-8.30am os yw'n bosibl.

**7. Ceisiadau Newydd am Gymorth**

Dim wedi'u derbyn

Roedd y pwyllgor yn dymuno atgoffa'r grwpiau cymunedol os oedd un ohonynt yn awyddus i drefnu digwyddiadau eraill yn ystod 2023, yna gallent gysylltu â Chyngor y Dref i ofyn am gymorth, neu os oeddynt yn dymuno trefnu digwyddiad ychwanegol ar gyfer penwythnos Coroni'r Brenin.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Digwyddiadau nos Lun, 15 Mai am 7pm mewn lleoliad i'w drefnu; cynhelir cyfarfod Gŵyl Gwledd Fest yn dilyn hynny am 8pm**